**Rhif: WG35191**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd 2018-2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf 2018
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 3 Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau ar ei chynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd drafft ar gyfer y cyfnod 2018-2023. Mae'n disodli cynllun gweithredu ynghylch sŵn cyfredol Cymru, a fabwysiadwyd yn 2013. Mae deddfwriaeth ynglŷn â sŵn amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gweithredu ynghylch sŵn cenedlaethol gael eu hadolygu a'u diwygio, lle y bo angen, o leiaf bob pum mlynedd.

Ystyr sŵn yw sain ddiangen neu niweidiol, tra bod y term “seinwedd” yn cyfeirio at yr amgylchedd acwstig fel y'i canfyddir, y'i profir neu y'i deëllir gan bobl mewn unrhyw gyd-destun penodol. Mae hyn yn cynnwys seiniau buddiol a niwtral yn ogystal â sŵn.

Y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd yw dogfen bolisi sŵn ganolog Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i lunio ar y cyd ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n amlinellu cyfeiriad polisi strategol y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â rheoli sŵn a seinweddau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd ystyried seinweddau yn gyffredinol, yn ychwanegol at reoli lefelau sŵn, mae'r prif wahaniaethau rhwng cynllun drafft 2018 a'r cynllun cyfredol fel a ganlyn:

- Mae'r cynllun drafft yn cysoni polisi sŵn a seinwedd yng Nghymru â'r fframwaith trawsbynciol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Mae'r cynllun drafft yn annog mwy o integreiddio rhwng gweithgareddau rheoli sŵn ac ansawdd aer a gynhelir gan gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau manteision lluosog.

- Mae'r cynllun drafft yn tynnu sylw at y diweddariadau arfaethedig i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yng Nghymru sy'n ymwneud â sŵn a seinwedd.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar gynnwys arfaethedig cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd 2018.

Noder y dylid darllen y ddogfen gysylltiedig, “Cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd 2018-2023 – drafft ymgynghori” cyn ateb cwestiynau'r ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 3 Hydref 2018. Gallwch ymateb gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.<br><br>**E-bost:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:<br><br>environmentalnoise@gov.wales<br><br>**Post:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:<br><br>Ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd<br>Is-adran yr Amgylchedd a Chymunedau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | **I gael rhagor o wybodaeth:**<br><br>Cyfeiriad: Fel uchod<br><br>E-bost: Fel uchod<br><br>Ffôn: 03000 259145 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achredig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

E-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** Y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd yw dogfen bolisi sŵn ganolog Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i lunio ar y cyd ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n amlinellu cyfeiriad polisi strategol y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â rheoli sŵn a seinwedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu a'r strategaeth hirdymor a gynigir yn y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd drafft? Os nad ydych, beth y dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill fod yn ei wneud yn wahanol, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 2:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnwys y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd drafft, heblaw am y camau gweithredu a'r strategaeth hirdymor arfaethedig?

**Cwestiwn 3:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae'r ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐